Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Bwyd a maeth mewn cartrefi gofal i bobl hŷn Canllawiau Arferion Gorau

**Cynnwys**

1. Cyflwyniad........................................................................................................ 3

2. Methodoleg ........................................................................................................ 3

3. Trosolwg o'r ymatebion ..................................................................................... 3

4. Crynodeb o'r ymatebion i gwestiynau penodol yr ymgynghoriad............................ 5

5. Y camau nesaf .................................................................................................. 11

Atodiad 1 – Rhestr o'r ymatebwyr

## 1.0 Cyflwyniad

1.1 Rhwng 18 Gorffennaf a 10 Hydref 2019 cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad i geisio barn ynglŷn â'r canllawiau drafft i gefnogi darpariaeth bwyd a diod iach mewn cartrefi gofal i bobl hŷn. Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r themâu allweddol o'r ymatebion a gafwyd.

1.2 Mae'r canllawiau bwyd a maeth arfaethedig ar gyfer lleoliadau cartrefi gofal yn un elfen o'r gwaith sy'n parhau i ddarparu gwell bwyd a maeth ar draws amrywiaeth o leoliadau gofal yng Nghymru.

1.3 Mewn datganiad ar 18 Gorffennaf 2019 cadarnhaodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol fod dogfen o'r enw 'Bwyd a maeth mewn cartrefi gofal i bobl hŷn – canllawiau arferion gorau' wedi'i llunio er mwyn ymgynghori arni. Diben y canllawiau yw cynorthwyo lleoliadau cartrefi gofal i ddarparu bwyd o ansawdd i bobl hŷn sydd yn eu gofal – bwyd sy'n diwallu eu hanghenion maeth. Bydd hyn yn cyfrannu at atal diffyg maeth a sicrhau canlyniadau iechyd a llesiant ymhlith preswylwyr cartrefi gofal.

1.4 Rydym yn cydnabod cyfraniad darparwyr cartrefi gofal a sefydliadau rhanddeiliaid, yn cynnwys Fforwm Gofal Cymru, Age Cymru, yr Asiantaeth Safonau Bwyd a Deietegwyr y GIG, sydd wedi helpu i lywio a siapio'r canllawiau drafft. Hefyd, rydym yn cydnabod y gwaith blaenorol a wnaed dan arweiniad Awdurdod Lleol Torfaen a Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan yn 2014 ar gyfer y prosiect 'Bwydlenni'n Cyfri mewn Gofal'.

## 2.0 Methodoleg

2.1 Roedd y ddogfen ymgynghori ysgrifenedig yn gofyn 14 o gwestiynau am amrywiaeth o feysydd allweddol er mwyn gweld pa mor dderbyniol a defnyddiol fyddai'r canllawiau o safbwynt eu cynnwys, eu dyluniad a'u fformat, eu hygyrchedd, a pha mor hawdd fyddai eu rhoi ar waith.


2.2 Yn ychwanegol at y ddogfen ymgynghori ffurfiol, mynychodd Llywodraeth Cymru nifer o ddigwyddiadau fforwm darparwyr iechyd ledled Cymru gan gwmpasu nifer o ardaloedd Awdurdodau Lleol, er mwyn cyflwyno gwybodaeth am yr ymgynghoriad ac ymgysylltu ag amrywiaeth o ddarparwyr.

2.3 Derbyniwyd cyfanswm o 25 ymateb i'r ymgynghoriad ysgrifenedig ffurfiol a daeth cyfanswm o oddeutu 160 o gyfranogwyr i'r digwyddiadau.

## 3.0 Trosolwg o'r ymatebion

3.1 Arweiniodd yr ymgynghoriad ysgrifenedig at 25 o ymatebion llawn, gan ddarparwyr cartrefi gofal a gweithwyr iechyd proffesiynol yn bennaf, fel y nodir yn Nhabl 1. I gael rhestr lawn, gweler Atodiad 1.

**Tabl 1 Rhestr o'r ymatebwyr**




**Crynodeb o'r ymatebion yn gyffredinol**

3.2 Roedd yr holl ymatebwyr yn cytuno y bydd y safonau a'r canllawiau o fudd i gartrefi gofal pobl hŷn.

Yn gyffredinol, mae'r ymatebion yn adlewyrchu'r pwyntiau canlynol:

- Cafodd y dyluniad a'r fformat arfaethedig ymateb cadarnhaol. Mae angen cyflwyno rhai addasiadau. Roedd oddeutu 50% yn fodlon â chael dogfen ar y we, roedd y 50% arall eisiau i gopïau caled gael eu rhoi i leoliadau, yn ychwanegol at y ddogfen ar y we.
- Cyflwynwyd sylwadau cadarnhaol ynghylch sut gellid defnyddio'r canllawiau a sut gallent fod o fudd i gartrefi gofal o ran darparu gwell gwasanaethau bwyd.
- Y farn oedd bod y cynnwys yn llawn gwybodaeth, yn gynhwysfawr ac yn berthnasol, ond bod angen gwell eglurhad mewn meysydd penodol. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn fod yna ormod o wybodaeth.
- Nodwyd yr angen am hyfforddiant i helpu i roi'r canllawiau ar waith, gyda mwy o gymorth gan ddeietegwyr a'r posibilrwydd o gynnig dysgu ar y we.
- Nodwyd rhai rhwystrau posibl o ran rhoi'r canllawiau ar waith, er enghraifft:

    - Cost ychwanegol y bwyd;
    - Cost ychwanegol amser staff i baratoi bwyd a chynllunio;
    - Pryderon am amseru oherwydd mae'n cystadlu â datblygiadau gwasanaeth eraill mewn cartrefi gofal;

- Yr angen am gymorth a hyfforddiant i staff er mwyn rhoi'r canllawiau ar waith yn effeithiol;
- Gall y diffyg pwys a roddir ar y canllawiau a'r ffaith nad ydynt yn orfodol lesteirio'r broses o'u rhoi ar waith;
- Diffyg gallu cartrefi gofal annibynnol llai;

## 4.0 Crynodeb o'r ymatebion i gwestiynau penodol

### Cwestiwn 1

| |
|---|
| Ydych chi'n cytuno ei bod yn bwysig cael canllawiau cyfredol ar yr arferion gorau o ran bwyd a maeth?<br>Esboniwch pam |

4.1 Roedd yr ymateb yn unfrydol ac roedd yr holl ymatebwyr o'r farn fod angen y canllawiau newydd ledled Cymru. Roedd y rhan fwyaf yn cytuno y byddai canllawiau diwygiedig yn ddefnyddiol i ddarparwyr cartrefi gofal er mwyn sicrhau cysondeb a dilyn arferion gorau.

4.2 Dyma rai sylwadau:

"Maen nhw'n bwysig, ac maen nhw'n helpu i sicrhau bod safonau gofynnol o ran maeth a hydradu'n cael eu bodloni ar gyfer preswylwyr cartrefi gofal. Maen nhw hefyd yn sicrhau bod y gofal yn canolbwyntio ar y claf, ei fod yn gyson a bod arferion gorau'n cael eu dilyn."

"Dylid cael dull gweithredu safonol sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer bwyd a maeth i bobl hŷn mewn cartrefi gofal, sy'n rhoi ystyriaeth i weithio mewn partneriaeth."

"Maen nhw'n rhoi arweiniad da ac maen nhw'n hawdd eu darllen."

"Fe fydd pawb sy'n gysylltiedig â darparu'r bwyd yn dilyn yr un canllawiau, fe fydd pob cwestiwn wedi'i ateb ac fe fydd staff wedi cael y wybodaeth angenrheidiol i gyd."

"Ychydig iawn o weithwyr gofal iechyd proffesiynol sydd wedi cael hyfforddiant mewn maeth, felly dylai pob un ddilyn canllawiau gan Ddeietegwyr Cofrestredig – nhw yw'r arbenigwyr."

### Cwestiwn 2

| |
|---|
| Beth yw eich barn am y ffordd mae'r adrannau wedi eu gosod – ydyn nhw'n hawdd i'w darllen a'u dilyn? |

4.3 Ar y cyfan roedd yr ymatebwyr yn gadarnhaol, gan ddweud bod y canllawiau wedi'u gosod yn glir, eu bod yn hawdd eu darllen a'u dilyn, a bod y pwyntiau ymarfer yn ddefnyddiol.

4.4 Roedd un ymatebydd o’r farn fod yr adrannau’n rhy hir a bod rhywfaint o ailadrodd ynddynt. Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylid cael crynodebau ar gyfer pob pwnc, taflenni A4 y gellid eu lawrlwytho neu fersiwn fwy cryno.

4.5 Dyma rai sylwadau:

“Maen nhw’n edrych yn wych – byddan nhw’n ddefnyddiol iawn i staff y gegin a staff y cartref.”

“Mae’r strwythur yn hawdd ei ddilyn ac mae hi’n hawdd dod o hyd i bethau.”

“Mae’r adrannau wedi’u gosod yn glir ac mae’r pwyntiau ymarfer ar ddiwedd pob adran yn fannau cyfeirio cyflym a hawdd. Mae’r delweddau’n ddefnyddiol ac yn syml – sy’n gwneud y canllawiau’n haws eu dilyn/deall.”

“Rydyn ni’n falch fod enghreifftiau o brydau mae eu hansawdd wedi’i addasu, yn ogystal ag opsiynau cyfnerthedig, wedi’u cynnwys.”

**Cwestiwn 3**

| |
|---|
| Beth fyddai’n help i sicrhau bod y rhain yn hwylus i chi (e.e. adrannau ar wahân ar y we, hawdd eu hargraffu) |

4.6 Cafwyd ymateb cymysg. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr o’r farn fod mynediad ar y we yn dderbyniol, cyn belled â bod yr adrannau unigol ar gael ar ffurf dogfennau hawdd eu hargraffu a bod rhai taflenni crynhoi ar gael ar ffurf dogfennau PDF ar wahân. Roedd rhai ymatebwyr o’r farn y byddai angen copi caled.

**Cwestiwn 4**

| |
|---|
| Beth yw eich barn am y dyluniad arfaethedig a ddangosir ar gyfer Adran 2? |

4.7 Roedd pob un o’r ymatebwyr o’r farn fod y dyluniad yn glir, yn hawdd ei ddilyn ac yn llawn gwybodaeth.

4.8 Dyma rai sylwadau:

“Mae’r dyluniad yn hawdd ei ddilyn. Mae’n ei gwneud hi’n haws i mi, sydd heb unrhyw gefndir mewn bwyd, ddeall a dilyn y canllawiau.”

“Mae’r canllawiau’n addysgiadol ac yn cyflwyno llawer o wybodaeth dda ym mhob adran. Ar adegau, rydw i’n teimlo bod gormod ym mhob adran – rhywbeth a allai atal tîm y cartref nyrsio rhag eu darllen ac elwa ar y pwyntiau pwysicaf.”

“…Rydw i’n meddwl ei bod yn bwysig gwahanu anghenion hylif ac yfed oddi wrth fwyd, gan ganolbwyntio mwy ar gymeriant hylif.”

“Mae’r canllawiau wedi’u gosod yn iawn ac mae’r defnydd o liwiau’n gweithio. Ond mae yna gymaint o wybodaeth – efallai y byddai o fudd cynnwys llai o wybodaeth…”

**Cwestiwn 5**

| |
|---|
| 5a. unrhyw rannau penodol o’r wybodaeth yn y ddogfen yr ydych yn anghytuno â nhw?<br>5b. unrhyw fylchau yn yr wybodaeth, y dylid ei chynnwys yn eich barn chi?<br>5c. unrhyw rannau sy’n arbennig o ddefnyddiol? |

4.9 Roedd mwyafrif yr ymatebwyr o’r farn nad oedd unrhyw adrannau yr oeddent yn anghytuno â nhw’n gyffredinol. Yn ychwanegol at y mân awgrymiadau ynghylch eglurder a newidiadau, cafwyd rhai ymatebion manwl yn sôn am ddarnau penodol o wybodaeth yn y canllawiau. Roedd y rhain yn cynnwys yr enghreifftiau canlynol:

- Awgrymwyd y dylid rhoi mwy o bwyslais ar gymeriant hylif a hydradu, gan gysylltu â gwaith ymchwil diweddar ar hydradu mewn cartrefi gofal.
- Roedd dau ymatebydd yn gadarnhaol ynglŷn â chynnwys iechyd y geg a’r pwyslais a roddir arno – “Mae’n galonogol iawn gweld sawl cyfeiriad at iechyd y geg yn yr adrannau. Mae cynnwys Gwên am Byth yn ddefnyddiol iawn hefyd.”
- Gofynnwyd am rywfaint o eglurder ynghylch rhai meysydd, e.e. diabetes.
- Awgrymwyd y gellid ailgategoreiddio’r adran figan.

4.10 Dyma rai sylwadau eraill:

“Mae’r wybodaeth yn briodol ar gyfer nodau’r ddogfen. Mae cynnwys gwybodaeth am gyfnerthu bwyd yn werthfawr.”

“Rydyn ni’n teimlo hefyd bod Adran 7 (rhoi’r canllawiau ar waith) yn bwysig, ond efallai y bydd cartrefi gofal angen cymorth ychwanegol i wneud hyn yn llwyddiannus.”

“Roedd yr adran sy’n sôn am gynorthwyo pobl â dementia yn arbennig o ddefnyddiol.”

“…felly, rydw i’n croesawu’r syniad y dylai cartrefi gofal ddefnyddio’r canllawiau fel arweiniad i ddangos i arolygwyr ac Awdurdodau Lleol sut maen nhw’n bodloni cyfrifoldebau, yn unol â chanllawiau statudol.”

“Mae gwerthuso gyda phreswylwyr a rheolwyr cartrefi gofal yn allweddol er mwyn deall sut bydd agweddau cadarnhaol damcaniaethol y canllawiau’n gweithio’n ymarferol.”

“Efallai y dylid ystyried cynnwys adran ar ddiwedd y canllawiau yn ymwneud â bwyd a maeth ar ddiwedd oes. Gallai sôn am risgiau sydd ynghlwm wrth fwydo trwy’r geg, rheoli risgiau, a gofal sy’n canolbwyntio ar unigolion pan nad yw cydbwysedd maeth yn flaenoriaeth.”

**Cwestiwn 6**

| |
|---|
| Ydych chi’n meddwl bod unrhyw broblemau neu rwystrau a allai atal y canllawiau bwyd a maeth rhag cael eu gweithredu’n llwyddiannus?<br>Os ydych chi, dywedwch beth ydynt a sut y gellid eu datrys. |

4.11 Roedd y prif rwystrau y soniwyd amdanynt yn cynnwys cost, amser a’r angen am gymorth. Roedd dau ymatebwr o’r farn na roddir digon o bwys ar fwyd a bod y gost yn cael mwy o flaenoriaeth, o gofio am gyfyngiadau cyllidebol. Ond cydnabuwyd bod arbedion a manteision i’w cael wrth baratoi bwyd cartref. Roedd ymatebwr arall o’r farn y gallai iechyd y geg gwael effeithio ar y modd y byddai’r canllawiau’n cael eu rhoi ar waith. Credwyd y gallai maint y cartref gofal effeithio ar y gallu i ddiwallu’r gofynion hefyd. Y prif bryder arall y tynnwyd sylw ato oedd yr anhawster i roi’r canllawiau ar waith yn ymarferol, a’r angen i’w hyrwyddo, ynghyd â darparu hyfforddiant a chymorth.

4.12 Dyma sylwadau:

“Ie, amser ac ymdrech, oherwydd nid dyma’r unig ganllawiau newydd i ddod i rym ac mae’n anodd i Reolwyr ei dal hi ym mhob man.”

“Gallai staff fod yn gyndyn o ddarllen dogfennau hirfaith. Mae cael fersiynau ‘gwib-ddarllen’ i gyd-fynd â’r dogfennau bob amser yn syniad da”

“diffyg adnoddau deietetig ... i gynorthwyo gyda’u gweithredu”

4.13 Cynigiwyd rhai atebion:

Roedd y rhain yn canolbwyntio ar hyfforddiant, cymorth a sicrhau bod y gwaith yn rhan annatod o’r sector iechyd a gofal cymdeithasol ac yn cael blaenoriaeth gan gomisiynwyr, arolygwyr a grwpiau llywio maeth a hydradu Byrddau Iechyd. Awgrymwyd gwobr neu gynllun arferion gorau i wobrwyo rhagoriaeth mewn gofal maethol hefyd.

4.14 Sylwadau:

“Hyfforddiant! Rydw i’n credu y dylai’r Cwrs Sgiliau Maeth am Oes fod yn orfodol.”

“...i godi ymwybyddiaeth o’r canllawiau byddai strategaeth lansio gyda digwyddiadau cenedlaethol a lleol yn dderbyniol iawn.”

“Mae yna ddiffyg gwybodaeth am bwysigrwydd maeth a hydradu ar draws y sector. Mae angen hyfforddiant ar bob grŵp o staff i godi ymwybyddiaeth o’r safonau a gwella sgiliau’r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol.”

“Mae cael fersiynau ‘gwib-ddarllen’ i gyd-fynd â’r dogfennau bob amser yn syniad da.”

“Byddai offeryn archwilio meincnodi ac offeryn monitro canlyniadau syml i asesu / galluogi cartrefi gofal i fonitro ac adrodd ar gynnydd yn helpu lleoliadau i arddangos arferion gorau hefyd.”

**Cwestiwn 7**

| |
|---|
| Pa fath o hyfforddiant, cymorth neu adnoddau yr hoffech chi eu gweld er mwyn helpu i roi’r canllawiau arferion gorau ar waith yn llwyddiannus? |

4.15 Cynigiwyd amrywiaeth o adnoddau a darpariaethau hyfforddiant ar gyfer cartrefi gofal pobl hŷn. Roedd yr enghreifftiau a awgrymwyd yn cynnwys:

- cyflwyniadau
- cyrsiau diweddaru
- hyfforddiant penodol ar gyfer cogyddion a rheolwyr
- fideo ar-lein
- amrywiaeth o hyfforddiant ar gyfer rolau gwahanol o fewn y sector, yn arbennig o safbwynt paratoi bwydydd dysffasia arbenigol er mwyn sicrhau eu bod yn flasus
- cyllid ar gyfer rolau addysgwyr
- gwobr arferion gorau

Cydnabuwyd bod gan wasanaethau maeth a deieteg rôl allweddol o ran cynorthwyo i roi’r canllawiau arferion gorau ar waith yn llwyddiannus. Roedd rhai ymatebwyr o’r farn nad oes llawer o gyfle i gael yr hyfforddiant hwn ar draws ardaloedd Byrddau Iechyd ac y byddai o fudd i bob rheolwr a chogydd ei gael yr hyfforddiant.

4.16 Tynnodd un ymatebydd sylw at y ffaith fod Maeth a Hydradu bellach yn fodiwl craidd mewn cymwysterau galwedigaethol Iechyd a Gofal Cymdeithasol Lefel 2 a 3, a fydd yn cynorthwyo i roi’r canllawiau arferion gorau hyn ar waith. Awgrymwyd y dylid ehangu ar hyn, gydag adnoddau ychwanegol, i roi hyfforddiant maeth a chymorth deietetig proffesiynol i aseswyr i gwrdd ag anghenion hyfforddi.

4.17 Er mwyn gwella’r modd y rhoddir y canllawiau ar waith, mae angen pwysleisio’r cysylltiad â rhaglenni a ffrydiau gwaith eraill. Roeddent yn cynnwys Gwên am Byth a Gwelliant Cymru, rhaglenni Cartrefi Gofal a ffrydiau gwaith Atal Haint y Llwybr Wrinol (UTI). Y farn oedd y dylai cydgysylltwyr y rhaglenni hyn fod yn ymwybodol o’r safonau.

Roedd un ymatebydd o’r farn hefyd ei bod yn bwysig ymgorffori’r canllawiau mewn safonau comisiynu.

Tynnwyd sylw hefyd at rôl arolygwyr a’r angen i ddarparu hyfforddiant a chymorth i arolygwyr yn y sector gofal i oedolion.

4.18 Dyma sylwadau a wnaed ynghylch hyfforddiant a chymorth:

“Mae angen darparu hyfforddiant cadarn ar faeth a hydradu i staff arlwyo, a hefyd mewn meysydd arbenigol yn ymwneud â maeth, fel IDDSI.”

“Hefyd, mae angen cymorth gyda chynllunio bwydlenni.”

“Mae yna gyfleoedd i gael dull Cymru gyfan e.e. cysylltu â’r Fframwaith Bwydlenni Cymru Gyfan ar gyfer y GIG a rhannu’r adnoddau yma gyda chartrefi gofal ac ehangu’r hyfforddiant Cymru gyfan i gartrefi gofal, yn enwedig i arlwywyr. Mae yna gyfle i wneud hyn trwy ymestyn y rhaglen Sgiliau Maeth am Oes.

“…bydden ni’n croesawu cynllun ‘gwobr arferion gorau’. Tebyg i’r ‘wobr Ysgolion Iach’, lle bydd lleoliadau gofal sy’n dilyn y canllawiau arferion gorau’n cael cydnabyddiaeth. Gall hyn wobrwyo camau cadarnhaol a chynorthwyo â marchnata.”

“Byddai dietegwyr yn croesawu’r cyfle i weithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu hyfforddiant ac adnoddau ymhellach er mwyn cynorthwyo i roi’r canllawiau ar waith a monitro’r effaith.”

“Cyflwyno fforwm hyfforddi er mwyn cadw i fyny gyda datblygiadau. Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili 6 o gartrefi gofal a fyddai’n elwa…”

“Ar hyn o bryd caiff y staff eu hyfforddi mewn hylendid bwyd sylfaenol, ond mae angen rhoi rhywbeth ar waith ar gyfer staff gofal, fel e-ddysgu, er mwyn iddyn nhw ddod yn gyfarwydd â’r canllawiau Arferion Gorau.”

**Cwestiynau 8 a 9**

| |
|---|
| 8. Sut byddwch chi’n eu defnyddio?<br><br>9. Ydych chi’n meddwl y bydd y safonau ar gyfer bwyd a diod, a’r ryseitiau, yn eich helpu i gynllunio prydau, byrbrydau, diodydd a bwydlenni ar gyfer y preswylwyr yn eich gofal? |

4.19 Roedd yr ymatebion yn amrywio, yn dibynnu ar y math o ymatebwr. Roedd mwyafrif y darparwyr cartrefi gofal o’r farn y byddent yn eu defnyddio i wella gwybodaeth eu staff, pan fyddai angen geirda, ac i ddosbarthu gwybodaeth i staff.

4.20 Cyflwynwyd enghraifft dda, lle mae un awdurdod lleol yn cefnogi gwelliannau mewn perthynas ag amseroedd bwyd trwy sefydlu rhwydwaith o gogyddion i greu cyfleoedd i wella gwybodaeth staff, a byddant yn defnyddio’r canllawiau yn y sesiynau hyn.

4.21 Roedd cogyddion yn cytuno y byddai’r canllawiau’n darparu’r wybodaeth i adeiladu ar fwydlenni ac IDDSI i ddefnyddio’r wybodaeth am ansawdd bwyd, i gymharu bwydlenni, ac i ddefnyddio syniadau newydd a chyflwyno profiadau bwyd newydd i’w preswylwyr.

Roedd gweithwyr iechyd proffesiynol eraill o'r farn y byddai'r canllawiau'n ddefnyddiol i gynorthwyo i roi IDDSI ar waith ac i gael disgwyliad o'r hyn y dylai cartrefi gofal ei ddarparu. Roedd deietegwyr o'r farn y byddai'r cynlluniau gofal yn ddefnyddiol, pe baent yn cael eu hintegreiddio yn Systemau TG Cartrefi Gofal. Hefyd, gellid defnyddio'r canllawiau wrth hyfforddi a chyfeirio.

4.22 Dyma rai sylwadau:

"Bydd y Canllawiau'n cael eu dosbarthu'n eang. Bydd rheolwyr yn dosbarthu'r Canllawiau mewn cyfarfodydd tîm a byddan nhw'n cael eu pwysleisio yn ystod cyfarfodydd goruchwylio staff ac ati."

"…fe fuaswn yn cyfeirio atyn nhw wrth ymweld (â pherthynas)."

"Ar hyn o bryd rydyn ni'n darparu hyfforddiant yn ymwneud â diffyg maeth mewn cartrefi gofal. Fe fyddai'r hyfforddiant, ochr yn ochr â'r safonau newydd ar gyfer cartrefi gofal, yn canolbwyntio mwy ar gynorthwyo gyda chynllunio bwydlenni ac arferion arlwyo mewn cartrefi gofal. Er mwyn rhoi'r ddogfen hon ar waith byddai'n rhaid cael dull tîm amlddisgyblaethol ynghyd â dealltwriaeth ar draws nifer o ddisgyblaethau, yn cynnwys Deieteg, er mwyn sicrhau bod cartrefi gofal yn cael cymorth i'w rhoi ar waith."

"I helpu gyda bwydlenni yn y dyfodol."

"Rydw i'n meddwl y bydd cartrefi gofal yn eu defnyddio i gynllunio bwydlenni, prydau a byrbrydau."

**C 10-13 Darparu deietau mae eu hansawdd wedi'i addasu a defnyddio IDDSI***

| |
|---|
| **Ar hyn o bryd, ydych chi'n darparu bwyd ar gyfer preswylwyr sydd angen diet o wahanol ansawdd?**<br>**Os ydych, ar gyfer faint o breswylwyr yn fras?**<br>**Ydych chi'n defnyddio gwefan IDDSI i gynllunio deietau mae eu hansawdd wedi'i addasu?**<br>**A yw gwefan IDDSI yn rhoi'r holl wybodaeth angenrheidiol i chi?**<br>**Ydych chi'n prynu prydau?** |

4.23 O blith y pum cartref gofal a atebodd y cwestiwn hwn, dywedodd tri eu bod, ar gyfartaledd, yn darparu llai na 5 o brydau mae eu hansawdd wedi'i addasu; roedd dau yn darparu mwy nag 20.

4.24 Nododd wyth o gartrefi gofal y math o ddeietau maent yn eu cynnig (hynny yw, o ran deietau mae eu hansawdd wedi'i addasu), gan nodi ystod o lefelau IDDSI. Ni soniodd yr un ohonynt eu bod yn prynu prydau mae eu hansawdd wedi'i addasu. Dywedodd chwech eu bod o'r farn fod gwefan IDDSI yn cyflwyno'r wybodaeth angenrheidiol, ond roedd dau yn anghytuno â hyn.

**5. Y camau nesaf**

5.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi dadansoddi ac ystyried yr holl ymatebion er mwyn llunio'r canllawiau terfynol. Ar sail y sylwadau a'r awgrymiadau a wnaed yn ystod yr ymgynghoriad, mae nifer o ddiwygiadau wedi'u cyflwyno er mwyn siapio a llunio'r canllawiau terfynol.

***IDDSI –** ***International Diet Descriptor Standardisation Initiative***

**Atodiad 1**

**Rhestr o'r ymatebwyr**

**Unigolion (17)**

Darparwyr Cartrefi Gofal Unigol (5)
Awdurdodau Lleol Darparwyr Cartrefi Gofal Unigol – Gwynedd (2), Ceredigion (1), Caerffili (1)
Aelod o'r cyhoedd
Perthynas preswylydd
Ymchwilydd, Prifysgol East Anglia
Gweithwyr Iechyd Proffesiynol Unigol (5)

**Sefydliadau (8)**

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Cymdeithas Ddeintyddol Prydain
Cymdeithas Gerontoleg Prydain a Grŵp Diddordeb Arbennig Cymru Gyfan/Grŵp Diddordeb Arbenigol Gofal Iechyd y Geg
Cyngor Diwydiant Wyau Prydain
Cyfadran Llawfeddygaeth Ddeintyddol Coleg Brenhinol y Llawfeddygon, Lloegr
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
Grŵp Cynghori Arweinyddiaeth Deieteg Cymru/Deietegwyr Iechyd y Cyhoedd yng Nghymru/Bwrdd Cymru